# Asesiad Strwythuredig 2022 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Blwyddyn archwilio: 2022

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3180A2022

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2023

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 4

Argymhellion 5

Adroddiad manwl

Trefniadau cynllunio strategol 7

Trefniadau llywodraethu 11

Rheoli adnoddau ariannol 21

Rheoli'r gweithlu, adnoddau digidol, yr ystâd, ac asedau ffisegol eraill 24

Atodiadau

Atodiad 1 – Ymagwedd archwilio 29

Atodiad 2 – Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio 31

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn 2022 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd). Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi'i fwriadu i helpu i ateb gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod wedi'i argyhoeddi bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau dan adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

2 Digwyddodd ein gwaith Asesu Strwythuredig yn 2022 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn dal i ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a achoswyd gan bandemig COVID-19. Roedd cyrff iechyd nid yn unig yn mynd i'r afael â'r heriau uniongyrchol a achoswyd gan argyfwng iechyd y cyhoedd ond roeddent hefyd yn ceisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau i ymateb i'r niferoedd sylweddol o bobl a oedd yn aros am driniaeth a gwella iechyd y boblogaeth. Mae angen i gyrff y GIG a'u Byrddau fod â threfniadau llywodraethu corfforaethol cadarn a all roi sicrwydd i'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol bod y camau gweithredu angenrheidiol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau diogel ac ymatebol o ansawdd da, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.

3 Mae ffocws allweddol y gwaith wedi bod ar drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gyda ffocws penodol ar drefniadau llywodraethu'r sefydliad; ei drefniadau cynllunio strategol; ei drefniadau rheolaeth ariannol; a threfniadau i reoli'r gweithlu, asedau digidol, yr ystâd, ac asedau ffisegol eraill. Caiff yr ymagwedd a fabwysiadwyd gennym i wneud ein gwaith ei nodi'n gryno yn **Atodiad 1**.

4 Rydym hefyd wedi darparu diweddariadau ar gynnydd yn erbyn argymhellion a nodwyd mewn adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol.

## Negeseuon allweddol

5 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: **yn gyffredinol, mae trefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd yn cefnogi llywodraethu da a defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau yn y rhan fwyaf o feysydd. Mae cynlluniau i ddiweddaru'r strategaeth hirdymor yn cyflwyno cyfleoedd i gryfhau'r trefniadau hyn ymhellach trwy sicrhau bod strwythurau, prosesau ac adnoddau allweddol yn cael eu cysoni'n llawn ag amcanion a risgiau strategol.**

6 Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth sydd wedi hen ennill ei phlwyf a strategaeth hirdymor, a danategir gan raglen glir ar gyfer trawsnewid gwasanaethau clinigol. Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod angen eu diweddaru i adlewyrchu cyfleoedd a heriau cyfredol. Mae ymagwedd y Bwrdd Iechyd at gynllunio'n effeithiol a

chynhwysol ar y cyfan, gyda goruchwyliaeth dda ar lefel y Bwrdd. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu cynhyrchu Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2022-2025 sy'n fantoledig yn ariannol ac wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

7 Mae systemau sicrwydd yn parhau i aeddfedu ar lefel gorfforaethol, ac mae gwaith ar y gweill i gryfhau trefniadau ar lefel weithredol. Mae cyfle i wneud mwy o ddefnydd o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i drefnu busnes y Bwrdd a phwyllgorau. Mae trefniadau gweddol dda ar waith i gynnal busnes y Bwrdd yn effeithiol ac yn dryloyw. Mae Tîm Gweithredol llawn yn ei le sydd i'w weld yn sefydlog yn dilyn cyfnod o weithredu â phenodiadau interim. Mae'r strwythur sefydliadol yn dal i fod yn sefydlog ac yn briodol; fodd bynnag, bydd angen ei adolygu'n gyson wrth i'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru ei Strategaeth hirdymor a chyflwyno modelau newydd ar gyfer gwasanaethau clinigol a'r gweithlu.

8 Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2021-22, mae mewn perygl o beidio â chyflawni ei ddyletswydd ariannol i adennill costau ar ddiwedd 2022-23 o ystyried yr angen i reoli ei ddiffyg sylfaenol a phwysau cynyddol o ran costau. Mae trefniadau ar gyfer rheolaeth a rheolaethau ariannol yn gwella. Cymerwyd camau cadarnhaol i wella tryloywder cyhoeddus trwy sicrhau bod papurau manwl ar atal twyll a chaffael yn cael eu trafod yn gyhoeddus. Mae adroddiadau ariannol, y mae'r Pwyllgor Cyllid yn craffu arnynt yn rheolaidd, yn eglur ac yn agored ynglŷn â heriau a risgiau ariannol.

9 Ceir goruchwyliaeth dda ar lefel y Bwrdd ar y trefniadau i gefnogi llesiant staff, ond dylai'r Bwrdd geisio sicrwydd gwell bod y trefniadau hyn yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Er bod trefniadau da ar gyfer goruchwyliaeth gan y Bwrdd ar faterion digidol, mae diffyg cynlluniau manwl a heriau o ran cyllid a staffio'n arafu gwaith y Bwrdd Iechyd i gyflawni ei flaenoriaethau digidol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu ei ffocws strategol ar gyflunio'i ystâd yn y dyfodol, ond nid yw gwybodaeth am gyflwr yr ystâd bresennol yn ddigon gweledol ar lefel y Bwrdd.

## Argymhellion

10 Caiff yr argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn eu nodi yn **Arddangosyn 1**. Caiff ymateb rheolwyr y Bwrdd ei grynhoi yn **Atodiad 2**.

**Arddangosyn 1: Argymhellion 2022**

**Cysoni prosesau, strwythurau ac adnoddau'n strategol**

A1 Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu diweddaru ei strategaeth ddeng mlynedd erbyn 2023. Dylai geisio defnyddio'r cyfle hwn i adolygu ac ail-lunio ei brosesau, strwythurau a threfniadau ehangach i sicrhau eu bod yn gwbl gyson ag amcanion strategol diweddaredig y sefydliad a'r risgiau cysylltiedig, gyda ffocws penodol ar:

- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd
- Ei Fframwaith Rheoli Perfformiad
- Strwythurau, cylchoedd gorchwyl a chynlluniau gwaith ei bwyllgorau
- Ei gynllun ariannol hirdymor

**Gwella'r Adroddiad Perfformiad Integredig**

A2 Mae'r Adroddiad Perfformiad Integredig yn darparu trosolwg dda o berfformiad y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, mae manylion y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i gynnal neu wella perfformiad sy'n syrthio islaw'r targed yn ymddangos mewn rhai adrannau o'r adroddiad ond nid mewn adrannau eraill. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei darparu'n gyson drwy'r adroddiad i gyd i gryfhau'r sicrwydd a ddarperir ar gyfer y Bwrdd bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd i gynnal neu wella perfformiad.

**Gwella trefniadau llywodraethu gweinyddol ymhellach**

A3 Er bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar gyfer cynnal busnes y Bwrdd a phwyllgorau'n effeithiol ac yn dryloyw, mae cyfleoedd yn bodoli i wella'r trefniadau hyn ymhellach. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd:

a) postio negeseuon mwy mynych yn atgoffa am gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau ar y cyfryngau cymdeithasol a darparu dolenni i bapurau;

b) sicrhau bod y papurau ar gyfer holl gyfarfodydd Grwpiau Ymgynghorol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Bwrdd Iechyd mewn modd amserol;

c) trefnu bod fersiynau cryno o gofnodion cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau ar gael yn gyhoeddus cyn gynted â phosibl ar ôl pob cyfarfod;

d) sicrhau bod y dyddiadau y cafodd Cylchoedd Gorchwyl eu hadolygu a'u cymeradwyo ddiwethaf yn cael eu harddangos yn glir ar y dogfennau;

e) cylchredeg cyflwyniadau cyn cyfarfodydd neu, lle nad yw hyn yn bosibl, trefnu bod copïau ar gael i aelodau a'r cyhoedd (trwy'r wefan) cyn gynted â phosibl wedi hynny; ac

f) sicrhau bod papurau cyhoeddus yn cynnwys esboniad pam fod rhai materion yn cael eu trafod yn breifat yn hytrach nag yn gyhoeddus.

# Adroddiad manwl

## Trefniadau cynllunio strategol

11 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn darparu ein barn ynglŷn â threfniadau cynllunio strategol y Bwrdd Iechyd, gyda ffocws penodol ar yr hyn sydd gan y sefydliad o ran:

- ei weledigaeth ac amcanion strategol;
- ei Gynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI);
- ei drefniadau cynllunio; a hefyd
- ei drefniadau rhoi strategaethau a chynlluniau corfforaethol ar waith a monitro'r modd y cânt eu cyflawni.

12 Caiff manylion cynnydd a wnaed gydag argymhellion yn y flwyddyn flaenorol mewn perthynas â threfniadau cynllunio strategol y Bwrdd Iechyd eu darparu yn **Arddangosyn 2**.

13 Canfuom fod **ymagwedd y Bwrdd Iechyd at gynllunio'n effeithiol a chynhwysol ar y cyfan, gyda throsolwg dda ar lefel y Bwrdd a rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn dda. Rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddal i roi blaenoriaeth allweddol i ddiweddaru ei strategaeth hirdymor a pharatoi CTCI y gellir ei gymeradwyo.**

### Gweledigaeth ac amcanion strategol

14 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae gweledigaeth glir a strategaeth hirdymor yn eu lle ar gyfer y sefydliad. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a yw'r weledigaeth a'r amcanion strategol yn canolbwyntio ar y dyfodol, ac wedi'u gwreiddio mewn dadansoddiad manwl a chynhwysfawr o anghenion, cyfleoedd, heriau a risgiau;
- a yw'r weledigaeth a'r amcanion strategol wedi cael eu datblygu a'u mabwysiadu gan y Bwrdd; ac
- a yw'r strategaeth hirdymor yn cael ei thanategu gan strategaeth glinigol hirdymor briodol.

15 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth sydd wedi hen ennill ei phlwyf, a danategir gan raglen glir ar gyfer trawsnewid gwasanaethau clinigol. Mae gwaith ar y gweill i ddiweddaru'r strategaeth hirdymor i adlewyrchu cyfleoedd a heriau cyfredol.**

16 Caiff gweledigaeth y Bwrdd Iechyd ei disgrifio'n glir yn ei strategaeth ddeng mlynedd, Llunio Dyfodol Ein Lles (2015-2025). Mae'r weledigaeth yn gryno, yn canolbwyntio ar y dyfodol, ac yn gosod pwyslais clir ar wella iechyd pobl ni waeth beth fo'u hamgylchiadau. Fe'i tanategir gan ddeg amcan strategol sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau'r boblogaeth, darparu gwasanaethau a chynaliadwyedd, a diwylliant sefydliadol. Yr amcanion strategol yw amcanion llesiant y Bwrdd Iechyd hefyd.

17 Mae’r strategaeth, a fabwysiadwyd gan y Bwrdd yn 2015, yn disgrifio’n glir beth oedd yr heriau allweddol o ran iechyd y boblogaeth ar y pryd, yn ogystal â’r ysgogiadau perthnasol megis deddfwriaeth a pholisïau allweddol. Datblygwyd y strategaeth ar y cyd â rhanddeiliaid ac mae’n hygyrch ar wefan y Bwrdd Iechyd.

18 Mae’r Bwrdd Iechyd yn bwriadu diweddaru ei strategaeth erbyn 2023 i adlewyrchu gwirioneddau, cyfleoedd a heriau ar ôl y pandemig. Mae wedi sefydlu trefniadau priodol ar lefel y Bwrdd i oruchwylio’r gwaith hwn, yn ogystal ag i sicrhau ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

19 Tanategir strategaeth ddeng mlynedd gyfredol y Bwrdd Iechyd gan weledigaeth glir ar gyfer cyflunio’i wasanaethau gofal iechyd yn y cartref, yn y gymuned, ac yn ei ysbytai yn y dyfodol. Fe sicrhaodd y Bwrdd Iechyd fod rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn cael eu cynnwys yn weithredol mewn sgwrs am lunio gwasanaethau clinigol y dyfodol yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill 2021. Mae’r Bwrdd Iechyd yn bwriadu datblygu ei Gynllun ‘Llunio Ein Dyfodol Clinigol’ ymhellach ochr yn ochr â diweddaru’r strategaeth ddeng mlynedd.

## Cynllun Tymor Canolig Integredig

20 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae’r Bwrdd Iechyd wedi gallu paratoi Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) ar gyfer 2022-2025. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a gyflwynwyd y CTCI o fewn yr amserlen ofynnol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru;
- a gafodd y fersiynau drafft a therfynol o’r CTCI eu trafod, eu herio a’u cytuno gan y Bwrdd cyn eu cyflwyno; ac
- a gafodd y CTCI gymeradwyaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

21 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi methu â pharatoi CTCI a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ac sy’n fantoledig yn ariannol ar gyfer 2022-2025.**

22 Cafodd CTCI drafft y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2022-2025 ei gytuno gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2022 a’i gyflwyno i Lywodraeth Cymru o fewn yr amserlen ofynnol. Fodd bynnag, ni chafodd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru gan nad oedd yn fantoledig yn ariannol. O ganlyniad mae’r Bwrdd Iechyd wedi cael ei uwchgyfeirio o drefniadau arferol i fonitro uwch ar gyfer cynllunio a chyllid dan Gyd-drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd Llywodraeth Cymru[1]. Ers hynny mae’r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno Cynllun Blynyddol ar gyfer 2022-23 i Lywodraeth Cymru, ym mis Mehefin 2022, sy’n nodi ei gynlluniau bras ar gyfer sefyllfa sy’n gynaliadwy yn ariannol erbyn 2024-25.

[1] O dan y Cyd-drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd, mae swyddogion Llywodraeth Cymru’n cwrdd ag Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o leiaf ddwywaith y flwyddyn i drafod perfformiad pob corff iechyd. Mae pedair lefel uwchgyfeirio: trefniadau arferol, monitro uwch; ymyrraeth wedi’i thargedu; a mesurau arbennig.

23 Canfuom dystiolaeth gref fod y Bwrdd, y Pwyllgor Cyllid, a'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni wedi cael sawl cyfle i ddarparu mewnbwn i'r CTCI, craffu arno a'i herio cyn ei gyflwyno. Canfu adolygiad Archwilio Mewnol hefyd fod trefniadau llywodraethu da ar waith i oruchwylio'r broses o gynllunio a datblygu'r CTCI, ond canfu gyfleoedd i sicrhau bod ymarferion gwersi a ddysgwyd yn cael eu cynnwys o fewn llinellau amser cynllunio'r CTCI yn y dyfodol.

## Trefniadau cynllunio

24 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd yn cynnal goruchwyliaeth effeithiol ar y broses ar gyfer datblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a yw egwyddorion gofal iechyd darbodus a seiliedig-ar-werthoedd yn cael eu hystyried a'u hadlewyrchu mewn strategaethau a chynlluniau corfforaethol;
- a yw strategaethau a chynlluniau corfforaethol wedi cael eu datblygu mewn cyswllt â rhanddeiliaid mewnol ac allanol perthnasol; ac
- a yw trefniadau ar gyfer comisiynu gwasanaethau'n effeithiol ac effeithlon, ac yn gyson â strategaethau a chynlluniau corfforaethol.

25 Canfuom fod **ymagwedd y Bwrdd Iechyd at gynllunio'n effeithiol a chynhwysol ar y cyfan, gyda goruchwyliaeth dda ar lefel y Bwrdd**.

26 Mae ymagwedd y Bwrdd Iechyd at gynllunio strategol yn effeithiol ar y cyfan. Cydlynir y broses gynllunio gan ei Dîm Cynllunio Strategol, ac fe'i cefnogir gan y Grŵp Datblygu a Chyflawni Strategaethau (SDDG), sy'n fforwm o uwch reolwyr sy'n goruchwylio datblygiad cynlluniau a strategaethau corfforaethol ac yn monitro'r broses o'u cyflawni. Mae'r SDDG yn cydweithio'n agos gyda Grŵp Cynllunio Gweithredol y Bwrdd Iechyd, sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Swyddog Gweithredu, i sicrhau mewnbwn a her sy'n briodol ar lefel weithredol cyn cyflwyno strategaethau a chynlluniau allweddol i'r Bwrdd i gael eu cymeradwyo. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i wneud defnydd da o ddata 'Signals from Noise'[2] i oleuo'i dybiaethau cynllunio.

27 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau perthnasol yn cynnal goruchwyliaeth effeithiol ar drefniadau cynllunio'r Bwrdd Iechyd, gyda threfn dda ar gyfer adrodd wrth y Bwrdd ar y broses o ddatblygu CTCI 2022-2025 a'r trefniadau ar gyfer diweddaru strategaeth ddeng mlynedd y sefydliad.

28 Mae'n aneglur sut y mae egwyddorion gofal iechyd seiliedig-ar-werthoedd yn goleuo ymagwedd y Bwrdd Iechyd ar y cyfan at gynllunio gan mai ychydig iawn o gyfeiriadau atynt a ganfuwyd gennym mewn strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Fodd bynnag, canfuom fod y Bwrdd Iechyd wedi defnyddio ymagwedd seiliedig-ar-werthoedd i ddatblygu ei raglen o wasanaethau

[2] Peiriant data sy'n seiliedig ar ystadegau yw Signals From Noise, a ddarparwyd gan drydydd parti sy'n cynorthwyo'r Bwrdd Iechyd i ddarganfod mewnwelediadau cudd o'i brosesau a darparu tystiolaeth i ategu penderfyniadau ar gyfer newid neu wella.

trawsnewidiol i fynd i'r afael â'i ddiffyg sylfaenol, yn ogystal â goleuo'i fwriadau comisiynu ar gyfer 2022-23.

29 Mae'r Bwrdd Iechyd yn effeithiol iawn am gynnwys rhanddeiliaid mewnol ac allanol wrth ddatblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Ceir tystiolaeth dda o gynnwys rhanddeiliaid yn y broses o ddatblygu strategaeth ddeng mlynedd y Bwrdd Iechyd, ac mae cynllun ymgysylltu manwl yn ei le i sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael cyfleoedd i ddylanwadu ar y rhifyn nesaf. Fel a nodwyd ym mharagraff 19, fe ymgysylltodd y Bwrdd Iechyd yn dda â rhanddeiliaid wrth ddatblygu eu raglen 'Llunio Ein Dyfodol Clinigol' hefyd.

30 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i ymgysylltu'n dda â'i Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a Fforwm Partneriaeth Lleol, gyda thystiolaeth bod trafodaethau am faterion megis y CTCI, y Cynllun Pobl a Diwylliant, a diweddaru'r strategaeth ddeng mlynedd yn digwydd yn y cyfarfodydd hyn. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ymgysylltu'n dda â'r Cyngor Iechyd Cymuned wrth ddatblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol perthnasol.

31 Ym mis Gorffennaf 2022, cafodd y Bwrdd fwriadau comisiynu'r Bwrdd Iechyd 2023-2026, sy'n rhoi cymorth i gyflawni'r strategaeth ddeng mlynedd ac yn bwydo i mewn i ddatblygiad CTCI 2023-2026. I sicrhau bod y bwriadau comisiynu'n gyson ag uchelgeisiau hirdymor y Bwrdd Iechyd, efallai y bydd rhai newidiadau iddynt wrth i'r sefydliad adolygu a diweddaru ei strategaeth ddeng mlynedd.

## Trefniadau cyflawni a monitro

32 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd yn goruchwylio'r broses, yn craffu ar y broses ac yn herio'r broses o roi strategaethau a chynlluniau corfforaethol ar waith a'u cyflawni. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a yw strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn cynnwys cerrig milltir, targedau a deilliannau clir sydd o gymorth i fonitro ac adrodd; ac
- a yw'r Bwrdd yn cael adroddiadau rheolaidd ar gynnydd i gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol.

33 Canfuom fod **camau cadarnhaol wedi cael eu cymryd i wella trefniadau gweithredu a monitro, a ddylai arwain at fwy o graffu a sicrwydd ar lefel y Bwrdd**.

34 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i wella'i drefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol fel a argymhellwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd (gweler **Arddangosyn 2, Argymhellion 2a** a **2b yn 2021**). Mae ei Gynllun Blynyddol/CTCI yn glir ynglŷn â chanlyniadau, amserlenni a mesurau allweddol i gefnogi trefniadau monitro ac adrodd effeithiol, er bod peth amrywiad rhwng gwahanol adrannau. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei strategaeth ddeng mlynedd wedi'i diweddaru'n darparu'r un lefel o eglurder. Mae'r ymagwedd y cytunwyd arni ar gyfer adrodd wrth y Bwrdd, ac wedi hynny i Lywodraeth Cymru, ar gynnydd gyda'r Cynllun Blynyddol/CTCI yn seiliedig ar dempled cyflawni sy'n adrodd yn erbyn:

- yr hyn y dywedodd y Bwrdd Iechyd y byddai'n ei wneud;

- erbyn pryd y dywedodd y Bwrdd Iechyd y byddai'n ei wneud; a
- ble y mae'r Bwrdd Iechyd arni mewn gwirionedd.

35 Cyflwynwyd yr adroddiad ar gynnydd yn Chwarter 1af 2022-23 i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2022. Roedd yn rhoi trosolwg dda o gyflawni'r Cynllun Blynyddol/CTCI hyd yma, yn ogystal â throsolwg o gynnydd o ran cyflawni rhaglenni strategol y Bwrdd Iechyd. Mae gwelliannau pellach yn yr arfaeth, megis cynnwys sgoriau Coch, Ambr, Gwyrdd (CAG) i amlygu blaenoriaethau a chamau gweithredu allweddol, a darparu mwy o fanylion ynghylch sut i roi'r broses gyflawni yn ôl ar y trywydd iawn pan geir oedi.

36 O 3ydd Chwarter 2022-23, bydd y 'map gwres' o fframwaith deilliannau'r Bwrdd Iechyd yn cael ei gyflwyno gyda'r adroddiad i ddangos, ar lefel uchel, effaith cyflawni yn erbyn y deilliannau bwriadedig. Mae'r templed cyflawni a'r map gwres wedi'u bwriadu i gael eu darllen ochr yn ochr â'r Adroddiad Perfformiad Integredig i roi golwg gyflawn i'r Bwrdd ar gynnydd.

**Arddangosyn 2: cynnydd a wnaed ar argymhellion y flwyddyn flaenorol**

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Argymhelliad 2 (2021)**<br>Mae dull cynllunio y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn gadarn. Fodd bynnag, mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro ac adrodd ar gyflawniad cynlluniau yn llai cadarn. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei drefniadau monitro ac adrodd ar gyflawniad cyffredinol ei Gynllun Blynyddol a Chynlluniau Tymor Canolig Integredig yn y dyfodol drwy: | |
| a. sicrhau bod y cynlluniau hyn yn cynnwys crynodebau clir o'r camau gweithredu/cyflawniadau allweddol, amserlenni a mesurau i gefnogi gwaith monitro ac adrodd effeithiol; a | **Ar y gweill**<br>Gweler paragraff 34. |
| b. darparu mwy o wybodaeth i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni ar y cynnydd o'i gymharu â chyflawni'r cynlluniau hyn fel y gellir craffu a rhoi sicrwydd yn llawn. | **Ar y gweill**<br>Er bod camau cadarnhaol wedi cael eu cymryd i wella trefniadau monitro a goruchwylio, mae'n llawer rhy gynnar i ni wneud sylw ar eu heffeithiolrwydd. |

# Trefniadau llywodraethu

37 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn darparu ein barn ynglŷn â threfniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd, gyda ffocws penodol ar:

- systemau sicrwydd allweddol;
- effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau; ac
- i ba raddau y mae dyluniad sefydliadol yn cefnogi llywodraethu da.

38 Caiff manylion y cynnydd a wnaed gydag argymhellion o'r flwyddyn flaenorol mewn perthynas â threfniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd eu darparu yn **Arddangosyn 3**.

39 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn cael ei arwain yn dda a'i lywodraethu'n dda ar y cyfan. Mae cynlluniau i ddiweddaru strwythurau llywodraethu a'u cysoni ag amcanion strategol diwygiedig yn darparu cyfleoedd i wella effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau ymhellach**.

## Systemau sicrwydd

40 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n goruchwylio risgiau sefydliadol, perfformiad ac ansawdd gwasanaethau, yn craffu arnynt ac yn eu herio. Wrth archwilio hyn, fe wnaethom ystyried:

- a oes Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd effeithiol yn ei le, sy'n cael ei adolygu'n weithredol a'i berchnogi gan y Bwrdd;
- a yw Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi'i danategu gan systemau priodol ar gyfer rheoli risgiau a pherfformiad; goruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau; a thrin gwybodaeth mewn modd diogel; ac
- a oes camau gweithredu effeithiol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â chanfyddiadau ac argymhellion archwilio ac adolygu.

41 Canfuom fod **systemau sicrwydd yn dal i aeddfedu ar lefel gorfforaethol, a bod gwaith ar y gweill i gryfhau trefniadau ar lefel weithredol.**

### Rheoli risg

42 Mae risgiau strategol y Bwrdd Iechyd wedi'u dogfennu'n glir yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ac mae proses sydd wedi hen ennill ei phlwyf yn ei lle i sicrhau y creffir arnynt a'u bod yn cael eu hadolygu mewn modd digonol. Mae risgiau strategol yn cael eu mapio'n glir i amcanion strategol cyfredol y Bwrdd Iechyd. Felly, dylai Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd gael ei adolygu a'i ail-lunio fel rhan ganolog o ddiweddaru strategaeth ddeng mlynedd y Bwrdd Iechyd (**Argymhelliad 1**).

43 Mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd rheolaidd bod risgiau strategol yn cael eu rheoli'n briodol. Mae'r Bwrdd yn cael ac yn adolygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn ei gyfanrwydd ym mhob cyfarfod cyhoeddus deufisol, ac mae'r pwyllgorau'n crafu'n rheolaidd ar y risgiau a aseiniwyd iddynt. Mae Adroddiad diwygiedig y Prif

Weithredwr i'r Bwrdd hefyd yn darparu trosolwg fanwl ar risgiau newydd i sefyllfa strategol y Bwrdd Iechyd a'r trefniadau a sefydlwyd i'w rheoli, eu lliniaru a'u lleihau.

44 Ceir craffu rheolaidd hefyd ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, y mae'r Bwrdd yn ei chael ym mhob cyfarfod cyhoeddus deufisol. Ym mis Tachwedd 2022, roedd 24 o rigiau ar y gofrestr, yr oedd 19 ohonynt yn ymwneud â diogelwch cleifion. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli ei risgiau corfforaethol yn weithredol fel a ddangosir yn yr adroddiad eglurhaol ar gyfer y Bwrdd, sy'n nodi cyfanswm nifer y risgiau, risgiau newydd, risgiau a dynnwyd allan, a chymhariaeth â'r adroddiad blaenorol i'r Bwrdd.

45 Ym mis Mawrth 2021, cafodd y Bwrdd Iechyd adroddiad Archwilio Mewnol a oedd yn rhoi sicrwydd rhesymol ynghylch ei broses rheoli risgiau. Ym mis Mehefin 2022, arweiniodd adolygiad dilynol at sicrwydd rhesymol hefyd a thri argymhelliad ychwanegol. Mae'r argymhellion newydd yn ymwneud yn bennaf ag egluro rolau a chyfrifoldebau a darparu hyfforddiant i berchnogion risgiau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gobeithio y bydd meddalwedd rheoli risgiau digidol Cymru gyfan Datix[3] yn helpu i gryfhau prosesau rheoli risg.

## Rheoli perfformiad

46 Ceir heriau sylweddol o ran perfformiad ar draws y Bwrdd Iechyd, fel gydag eraill ledled Cymru. Ar gyfer gofal heb ei drefnu, ym mis Medi 2022 gwelwyd cynnydd parhaus mewn derbyniadau i adrannau achosion brys, gyda derbyniadau am bedair awr islaw'r targed ar 61.3% ac arosiadau am 12 awr yn dal i fod yn uchel, sef 1,004 o gleifion. Mae'r Bwrdd Iechyd yn priodoli'r heriau i anawsterau wrth ryddhau cleifion sy'n ffit yn feddygol, a materion o ran y gweithlu megis swyddi nyrsys gwag a chyfraddau salwch uchel.

47 O ran gofal wedi'i gynllunio, mae'r rhestr aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn sylweddol. Ym mis Medi 2022, roedd cyfanswm o 128,179 o gleifion yn aros, yr oedd 7,038 ohonynt wedi bod yn aros am dros 104 o wythnosau a 28,800 wedi bod yn aros am 52 o wythnosau. Mae'r rhestr aros ar gyfer apwyntiad dilynol fel claf allanol yr un mor sylweddol (183,614 o gleifion) ond mae gan 98.7% ddyddiadau targed. Mae perfformiad ar y llwybr canser sengl yn achos i bryderu hefyd, gyda'r gyfradd gydymffurfio ar 42.8% yn erbyn y targed o 75% ym mis Medi 2022.

48 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal Adolygiadau Gweithredol o Berfformiad ar gyfer pob Bwrdd Clinigol lle maent yn cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad gweithredol ac ariannol. Ers mis Medi 2022, mae'r holl gyfarfodydd hyn yn cael eu mynychu gan yr holl Dîm Gweithredol er mwyn ceisio creu diwylliant o ddeialog agored a gonest ac osgoi'r angen am broses uwchgyfeirio fewnol ffurfiol.

49 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n darparu trosolwg dda ar berfformiad y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd yn cael yr Adroddiad Perfformiad Integredig yn rheolaidd ac mae hwnnw'n darparu trosolwg dda ar berfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn mesurau

[3] Datix yw'r meddalwedd a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau clinigol ac anghlinigol.

ansawdd a pherfformiad cenedlaethol a lleol allweddol. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys perfformiad yn erbyn y blaenoriaethau gweinidogol. Mae pwyllgorau'n craffu'n fanwl ar fesurau sy'n cyd-fynd â'u priod swyddogaethau. Fodd bynnag, mae gwybodaeth am y camau gweithredu sy'n cael ei cymryd i gynnal neu wella perfformiad sy'n syrthio islaw'r targed yn cael ei chynnwys mewn rhai adrannau o'r adroddiad, ond nid rhai eraill. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei darparu'n gyson drwy'r adroddiad i gyd i gryfhau'r sicrwydd a ddarperir ar gyfer y Bwrdd bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd i gynnal neu wella perfformiad (**Argymhelliad 2**).

50 Ym mis Medi 2020, fe wnaeth y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni gymeradwyo Fframwaith Rheoli Perfformiad y Bwrdd. Mae hwn yn dogfennu rolau a chyfrifoldebau, trefniadau rheoli perfformiad a phrosesau uwchgyfeirio'n glir. Fodd bynnag, dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r fframwaith hwn ochr yn ochr â diweddaru ei strategaeth ddeng mlynedd a strwythur ei bwyllgorau i sicrhau bod trefniadau'n gyfredol ac yn gyson ag amcanion a risgiau strategol (**Argymhelliad 1**).

## Sicrhau ansawdd a diogelwch

51 Ym mis Mehefin 2022, fe gyhoeddom ni ein hadolygiad o drefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd. Canfu ein hadolygiad fod gan y Bwrdd Iechyd Fframwaith Ansawdd, Diogelwch a Gwella cymeradwy, gyda blaenoriaethau ansawdd wedi'u datgan yn glir. Ond nid yw blaenoriaethau corfforaethol a gweithredol yn cyd-fynd yn dda â'i gilydd.

52 Er bod cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar y cyd am ansawdd a diogelwch ar lefel gorfforaethol, yn weithredol canfuom dystiolaeth o weithio mewn seilos a diffyg eglurder ymhlith Cyfarwyddwyr Clinigol o ran eu cyfrifoldebau am ansawdd a diogelwch. Dywedodd y Bwrdd Iechyd ei fod yn mynd i'r afael â hyn trwy gynllunio swyddi.

53 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi disgrifio prif weithgareddau a graddfeydd amser cyflawni i ategu ei Fframwaith Ansawdd, Diogelwch a Gwella, ond nid oedd fframwaith monitro ac adrodd yn ei le ar adeg ein hadolygiad ni. Ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgorffori camau gweithredu ar gyfer ansawdd, diogelwch a gwella yn ei CTCI. Felly, dylai'r Bwrdd gael sicrwydd ynghylch cyflawni'r fframwaith newydd trwy adroddiadau rheolaidd ar gynnydd gyda'r CTCI. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu sicrhau bod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn cael sicrwydd ynghylch cyflawni'r fframwaith hefyd.

## Llywodraethu gwybodaeth a seiberddiogelwch

54 Mae seiberddiogelwch yn dal i fod yn risg arwyddocaol, gan gael sgôr o 20 ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Gan gydnabod hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i gryfhau trefniadau yn y maes hwn. Ym mis Mai 2022, fe gwblhaodd y tîm Archwilio Mewnol adolygiad o Fframwaith Asesu Seiber sylfaenol y Bwrdd Iechyd, gan arwain at sgôr sicrwydd cyfyngedig. Fe wnaeth yr adolygiad bedwar

argymhelliad, y mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd rhesymol o ran mynd i'r afael â hwy.

55 Mae'r Pwyllgor Deallusrwydd Iechyd a Digidol, sy'n cwrdd deirgwaith y flwyddyn, yn cael Adroddiad ar Ddata a Chydymffurfio ym maes Llywodraethu Gwybodaeth ym mhob cyfarfod. Mae trefniadau adrodd yn dda, gyda'r pwyllgor yn cael gwybodaeth a sicrwydd ynghylch materion megis capasiti staffio ar gyfer llywodraethu gwybodaeth, digwyddiadau difrifol dan y Ddeddf Diogelu Data, cynnydd gyda cheisiadau rhyddid gwybodaeth a cheisiadau gwrthrych am wybodaeth a broseswyd. Mae'r adroddiad hefyd yn darparu gwybodaeth am gydymffurfio â hyfforddiant gorfodol ym maes llywodraethu gwybodaeth, a oedd yn 66% ym mis Hydref 2022. Mae hyn yn achos pryder, ac mae'r Uwch Fwrdd Arwain yn adolygu cydymffurfiaeth gyda golwg ar flaenoriaethu gofynion hyfforddi gorfodol ar draws y Bwrdd Iechyd.

### Tracio argymhellion

56 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i fod â threfniadau da ar waith i dracio argymhellion archwilio ac adolygu a'u rhoi ar waith. Yn gadarnhaol, mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i gynyddu effaith ei drefniadau tracio argymhellion ac i ddarparu mwy o sicrwydd ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.

57 O fis Tachwedd 2022, bydd y pwyllgor yn ystyried offerynnau tracio argymhellion mewnol ac allanol ym mhob yn ail gyfarfod i roi mwy o amser i swyddogion fwrw ymlaen â chamau gweithredu. Hefyd, bydd aelodau'n cytuno ar argymhelliad risg uchel neu hirsefydlog i'w ystyried yn fanwl. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cymryd camau cadarnhaol i wella'i offeryn tracio cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol a rheoleiddiol yn dilyn adroddiad sicrwydd rhesymol a gyhoeddwyd gan y tîm Archwilio Mewnol ym mis Awst 2021.

58 Ym mis Tachwedd 2022, roedd 35 o argymhellion gan Archwilio Cymru a oedd wedi'u cwblhau yn rhannol. O'r rhain, roedd 14 o'r argymhellion yn hwyr yn cael eu rhoi ar waith. Bydd y Bwrdd Iechyd yn craffu ymhellach ar y rhain cyn cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Chwefror 2023.

## Effeithiolrwydd y Bwrdd a Phwyllgorau

59 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n cynnal eu busnes yn effeithiol ac yn cefnogi llywodraethu da. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a yw'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n dangos lefelau priodol o dryloywder cyhoeddus;
- a gynhelir cyfarfodydd yn briodol gan gael eu hategu gan Gynlluniau Dirprwyo, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, a Chofrestrau Buddiannau eglur;
- a oes strwythur pwyllgorau sy'n briodol ac sy'n gweithio'n dda islaw'r Bwrdd;

- a yw'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n cael yr wybodaeth gywir, gan gynnwys barn gan staff a defnyddwyr gwasanaethau; ac
- a oes tystiolaeth o hunanadolygu digonol gan y Bwrdd a'i bwyllgorau.

60 Canfuom fod **trefniadau da ar waith i gynnal busnes y Bwrdd yn effeithiol ac yn dryloyw. Fodd bynnag, mae cyfle i wneud mwy o ddefnydd o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i drefnu busnes y Bwrdd a phwyllgorau.**

61 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd nifer o gamau cadarnhaol i wella tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd fel a argymhellwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd (gweler **Arddangosyn 3, Argymhellion 1a a 1b yn 2021**).

62 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i gynnal cyfarfodydd pwyllgorau'n rhithwir, gyda'r rheiny'n cael eu ffrydio'n fyw a'u recordio. Ers mis Mai 2022, mae cyfarfodydd y Bwrdd wedi bod yn cael eu cynnal yn y cnawd. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi bwriadu ffrydio'r holl gyfarfodydd a gynhelir yn y cnawd gan y Bwrdd yn fyw a'u recordio o fis Tachwedd 2022 i gynnal tryloywder a hygyrchedd cyhoeddus, ni ddigwyddodd hyn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i archwilio sut orau i hwyluso cyfarfodydd hybrid ac mae'n gobeithio y bydd ganddo ddatrysiad erbyn mis Mawrth 2023.

63 Canfuom fod cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau sydd ar fin digwydd yn cael eu hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol yn fisol fel a argymhellwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd (gweler **Arddangosyn 3, Argymhelliad 1e yn 2021**). Fodd bynnag i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd ac ymgysylltiad â'r cyhoedd ymhellach, dylai'r Bwrdd Iechyd bostio negeseuon atgoffa mwy mynych yn nes at ddyddiadau cyfarfodydd a darparu dolenni i bapurau (**Argymhelliad 3a**).

64 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i gyhoeddi agendâu a phapurau ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau ar ei wefan cyn cyfarfodydd yn unol â'i safonau cyhoeddi. Mae cydymffurfiaeth â'r safon hon yn dal i fod yn dda; fodd bynnag, fe ganfuom fylchau ym mhapurau grwpiau ymgynghorol[4] (**Argymhelliad 3b**). Mae eitemau sydd i'w trafod mewn sesiynau preifat bellach yn cael eu nodi ar agendâu'r holl gyfarfodydd pwyllgor fel a argymhellwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd (gweler **Arddangosyn 3, Argymhelliad 1d yn 2021**). I wella tryloywder busnes y Bwrdd a phwyllgorau ymhellach, dylai'r Bwrdd Iechyd drefnu bod cofnodion cryno o'r sesiynau preifat ar gael yn gyhoeddus (**Argymhelliad 3c**).

65 Mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd o gymorth i gynnal busnes y Bwrdd yn effeithiol. Mae ei Reolau Sefydlog, Cynllun Cadw Yn Ôl a Dirprwyo, a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Cawsant eu cymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Ebrill 2022 yn dilyn craffu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Chwefror 2022. Mae'r dogfennau hyn, sy'n llywodraethu busnes y Bwrdd Iechyd, ar gael ar ei wefan.

[4] Canfu ein hadolygiad o'r wefan ym mis Tachwedd 2022 nad oedd papurau'r Grwpiau Ymgynghorol canlynol ar gael: Y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2022, a'r Fforwm Partneriaeth Lleol a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2021. Nid oedd unrhyw bapurau ar gael ar gyfer y Fforwm Gweithwyr Iechyd Proffesiynol.

66 Rydym yn arsylwi fel rhan o'r drefn arferol ar ddatganiadau o fuddiant a gymerwyd ar ddechrau cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau fel eitem sefydlog ar bob agenda. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd hefyd yn cael ac yn adolygu'r Cofrestrau ar gyfer Rhoddion a Lletygarwch a Datganiadau o Fuddiant ym mhob cyfarfod. Mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn cyhoeddi datganiadau'r Bwrdd ar wahân i rai'r holl staff ar ei wefan fel a awgrymwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd.

67 Mae strwythur pwyllgorau'r Bwrdd Iechyd yn dal i fod yn sefydlog a heb newid i raddau helaeth, ac eithrio'r Pwyllgor Llunio Ein Hysbytai i'r Dyfodol. Cafodd hwn ei atal dros dro ym mis Gorffennaf 2022, tra'r oedd ymateb gan Lywodraeth Cymru i Achos Busnes Amlinellol y Bwrdd Iechyd ar gyfer ailddatblygu Ysbyty Athrofaol Cymru yn yr arfaeth. Fodd bynnag, mae cylch gwaith mawr ac amrywiol y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni'n achos pryder (gweler **paragraffau 112 ac 122**). Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu adolygu ei strwythur pwyllgorau i sicrhau ei fod yn addas ar gyfer y diben o ran darparu trosolwg a sicrwydd digonol ac effeithiol ar draws holl fusnes y Bwrdd Iechyd. Mae'n hanfodol bod y Bwrdd Iechyd yn ystyried y strwythur pwyllgorau ochr yn ochr â diweddaru ei strategaeth ddeng mlynedd i sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn briodol ag amcanion strategol ac yn cynnal goruchwyliaeth ar raglenni gwaith i'w cyflawni (**Argymhelliad 1**).

68 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar gyfer sicrhau bod Cylchoedd Gorchwyl, blaengynlluniau gwaith ac Adroddiadau Blynyddol yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo'n flynyddol gan y Bwrdd a'i bwyllgorau. Mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol yn sicrhau bod y fersiynau diweddaraf o'r dogfennau hyn ar gael ar y wefan, er y byddai o gymorth arddangos y dyddiad y cafodd y Cylchoedd Gorchwyl eu hadolygu a'u cymeradwyo ddiwethaf (**Argymhelliad 3d**). Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi diweddaru manylion aelodaeth pwyllgorau ar ei wefan fel a argymhellwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd (gweler **Arddangosyn 3, Argymhelliad 1c yn 2021**). Fel rhan o ddiweddaru ei strategaeth ddeng mlynedd, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod Cylchoedd Gorchwyl y Bwrdd a phwyllgorau'n adlewyrchu amcanion strategol cyfredol a bod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi'i ddiweddaru'n cael ei ddefnyddio i lunio cynlluniau gwaith (**Argymhelliad 1**).

69 Mae gan y Bwrdd garfan sefydlog o Aelodau Annibynnol, er bod yr aelod dros brifysgolion i fod i sefyll i lawr ym mis Rhagfyr 2022. Mae'r broses o recriwtio rhywun yn ei le wrthi'n mynd rhagddi. Mae'r Tîm Gweithredol wedi profi nifer o newidiadau yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys penodi Prif Weithredwr newydd, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol newydd, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio newydd a Phrif Swyddog Gweithredu newydd a ddechreuodd ym mis Chwefror 2022, ym mis Hydref 2021, ym mis Gorffennaf 2022 ac ym mis Awst 2022 yn y drefn honno. Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd reoli'r newidiadau hyn yn dda trwy ddarparu trefniant cyflenwi interim priodol i gynnal sefydlogrwydd a pharhad y Bwrdd tra'r oedd penodiadau parhaol yn cael eu gwneud. Mae aelodau'r Bwrdd yn dal i fod â pherthynas iach, gydag Aelodau Annibynnol yn cynnig cydbwysedd da o graffu, herio a chefnogaeth i Aelodau Gweithredol.

70 Canfu ein harsylwadau fod cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau'n cael eu cadeirio'n dda ar y cyfan. Mae'r holl aelodau a mynychwyr yn dal i ddilyn moesau cyfarfodydd rhithwir, gan sicrhau felly bod cyfarfodydd yn rhedeg yn esmwyth. Mae

Cadeiryddion hefyd yn effeithiol wrth ddefnyddio’r cyfarwyddiadau ar bapurau eglurhaol i arwain a chrynhoi eitemau ar yr agenda. Mae agendâu cyfarfodydd yn cael eu cynllunio’n briodol, gan ganiatáu amser da ar gyfer trafod. Mae cyfarfodydd yn cael eu cefnogi’n dda gan y Tîm Llywodraethu Corfforaethol.

71 Ceir dull effeithiol hefyd ar gyfer cyfeirio materion at bwyllgor arall neu eu huwchgyfeirio at y Bwrdd. Mae adroddiadau amlygu a baratowyd gan gadeiryddion pwyllgorau'n dal i fod yn ffynhonnell sicrwydd allweddol. Fel a awgrymwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd, mae’r rhain bellach yn ymddangos ymhellach i fyny agenda’r Bwrdd ac yn cael sylw dan yr eitemau ar gyfer adolygiad a sicrwydd, gan sicrhau felly bod risgiau allweddol a adnabuwyd gan bwyllgorau’n cael eu hystyried ar ddechrau pob un o gyfarfodydd y Bwrdd.

72 Mae papurau ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau wedi’u hysgrifennu’n dda ac yn eglur fel rheol, ac yn cael eu hategu gan adroddiadau eglurhaol cryno sy’n amlygu pwyntiau allweddol i aelodau eu hystyried. Mae adroddiadau eglurhaol wedi cael eu cryfhau ymhellach fel a awgrymwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd. Fodd bynnag, mae rhai papurau’n dal i fod yn faith, yn seiliedig ar naratif, ac yn weithredol o ran eu ffocws. Ar ben hynny, rydym wedi gweld achosion o swyddogion yn siarad am set o sleidiau cyflwyno nad ydynt wedi cael eu rhannu ymlaen llaw. O ganlyniad, nid yw’r aelodau’n cael cyfleoedd i baratoi’n llawn ar gyfer yr eitemau hyn rhag blaen. Lle y bo’n bosibl, dylai’r Bwrdd Iechyd amcanu at gylchredeg cyflwyniadau cyn cyfarfodydd a/neu drefnu bod copïau ar gael i aelodau a’r cyhoedd (trwy’r wefan) cyn gynted â phosibl wedi hynny (**Argymhelliad 3e**).

73 Mae’r Bwrdd Iechyd yn dal i ddangos ymrwymiad da i wella’n barhaus. Ym mis Ebrill 2022, fe gynhaliodd y Bwrdd a’i bwyllgorau adolygiadau blynyddol o effeithiolrwydd mewn pryd i fwydo i mewn i’w Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol. Ym mis Mai 2022, cafodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd y canfyddiadau cadarnhaol ar y cyfan o arolygon 2021-22 a’r cynllun gweithredu a ddeilliodd ohonynt. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod y gallai ei ddull ar gyfer cynnal yr arolygon effeithiolrwydd fod yn fwy effeithiol. O ganlyniad, bydd adolygiadau 2022-23 ar ffurf trafodaethau wedi’u hwyluso a fydd yn darparu adborth dyfnach a chyfoethocach.

74 Mae datblygiad aelodau’r Bwrdd yn cael ei gefnogi’n dda trwy raglen y Bwrdd Iechyd o Sesiynau Datblygu’r Bwrdd a gynhelir bob yn ail fis. Mae Aelodau Annibynnol yn teimlo’u bod yn cael eu cefnogi gan y Cadeirydd sy’n cynnal cyfarfodydd misol gydag aelodau, yn cynnal arfarniadau blynyddol, ac yn adolygu amcanion blynyddol aelodau, y maent yn cael eu hannog i’w perchenogi. Hefyd, ceir cyfleoedd i aelodau gymryd rhan mewn cynlluniau anogaeth a mentora, mynychu hyfforddiant, a chwblhau modiwlau hyfforddi statudol a gorfodol.

75 Mae’r Bwrdd yn ymgysylltu â staff a chleifion trwy amryw ddulliau gan gynnwys arolygon staff, teithiau misol i arsylwi ar ddiogelwch cleifion gan aelodau’r Bwrdd, ei fenter Rhyddid i Godi Llais a storïau cleifion yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau. Er bod trefniadau rhesymol ar waith i gasglu profiadau cleifion, canfu

ein hadolygiad o drefniadau llywodraethu ansawdd fod angen mwy o waith i wella goruchwyliaeth y Bwrdd a phwyllgorau ar storïau cleifion.

**Mae'r tabl yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar argymhellion y flwyddyn flaenorol.**

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Argymhelliad 1 (2021)**<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd nifer o gamau cadarnhaol i wella tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd ers ein hadroddiad asesiad strwythuredig yn 2020. Fodd bynnag, mae lle i'r Bwrdd Iechyd gryfhau y tryloywder cyhoeddus ymhellach drwy: | |
| a. sicrhau bod holl recordiadau cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd yn cael eu lanlwytho i wefan y Bwrdd Iechyd mewn modd amserol ar ôl pob cyfarfod, a sicrhau bod dolenni i gyfarfodydd blaenorol yn parhau i fod yn weithredol; | **Wedi'i gwblhau**<br>Mae recordiadau o gyfarfodydd y Bwrdd yn gyfoes gyda dolenni byw. Mae recordiadau ar gael o fis Gorffennaf 2020 ymlaen. |
| b. sicrhau bod recordiadau o gyfarfodydd y Pwyllgor cyhoeddus ar gael ar ei wefan neu y cyhoeddir cofnodion nas cadarnhawyd o gyfarfodydd y Pwyllgor cyn gynted â phosibl wedi hynny; | **Wedi'i gwblhau**<br>Mae recordiadau o gyfarfodydd pwyllgorau'n gyfoes. Mae recordiadau ar gael o fis Ionawr 2022 ymlaen. |
| c. diweddaru manylion aelodaeth y Pwyllgorau ar wefan y Bwrdd Iechyd cyn gynted ag y caiff newidiadau eu cymeradwyo; | **Wedi'i gwblhau**<br>Mae manylion aelodaeth pwyllgorau'n gyfoes ar wefan y Bwrdd Iechyd. |
| d. rhestru'n barhaus y materion sydd i'w trafod yn breifat gan Bwyllgorau ar agenda eu cyfarfodydd cyhoeddus; | **Wedi'i gwblhau**<br>mae eitemau i'w trafod yn breifat gan bwyllgorau wedi'u rhestru ar yr agenda gyhoeddus |

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| e. cyfeirio'r cyhoedd i bapurau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau a recordiadau cyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd yn barhaus drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd Iechyd; ac | **Ar y gweill**<br>Mae cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau sydd ar fin cael eu cynnal yn cael eu hysbysebu ar Facebook yn fisol gyda dolenni i'r papurau, ond gallai'r Bwrdd Iechyd bostio'n fwy mynych ac yn nes at ddyddiadau cyfarfodydd. |
| f. sicrhau bod papurau gwrth-dwyll a chaffael yn cael eu hystyried yn gyhoeddus gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, gan gadw materion sensitif yn unig ar gyfer cyfarfodydd preifat. | **Wedi'i gwblhau**<br>Rydym wedi arsylwi ar y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn ystyried papurau manwl am atal twyll a chaffael yng ngŵydd y cyhoedd. |

## Dyluniad gweithredol

76 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae strwythur sefydliadol y Bwrdd Iechyd yn cefnogi llywodraethu effeithiol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a yw cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn glir, ac a oes ganddynt bortffolios gwaith cytbwys a theg;
- a oes eglurder ar rôl Ysgrifennydd y Bwrdd, ac a oes adnoddau digonol yn eu lle i gefnogi gwaith y Bwrdd a'i bwyllgorau; ac
- a yw'r strwythur sefydliadol yn cefnogi llywodraethu effeithiol ac yn hwyluso trefniadau gweithio system gyfan.

77 Canfuom **er bod y strwythur sefydliadol yn dal i fod yn sefydlog a phriodol, y bydd angen iddo gael ei adolygu'n gyson wrth i'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru ei strategaeth hirdymor a chyflwyno modelau newydd ar gyfer gwasanaethau clinigol a'r gweithlu.**

78 Mae gan y Bwrdd Iechyd strwythur sefydliadol sefydlog sydd wedi aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth ers ein hasesiad strwythuredig diwethaf. Er bod y strwythur presennol i'w weld yn addas ar gyfer y diben, dylai gael ei adolygu'n gyson wrth i'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru ei strategaeth ddeng mlynedd a chyflwyno modelau newydd ar gyfer gwasanaethau clinigol a'r gweithlu.

79 Ym mis Medi 2022, fe wnaeth y Bwrdd adolygu a chymeradwyo ei strwythur gweithredol lefel-uchaf am y tro cyntaf yn unol â Rheolau Sefydlog y sefydliad. Fe wnaeth y Bwrdd hefyd adolygu a chymeradwyo portffolios Cyfarwyddwyr Gweithredol, gan fanteisio ar y cyfle i egluro rolau wrth i'r tîm gweithredol newydd ymgartrefu. Ni chanfuom unrhyw bryderon ynghylch cydbwysedd a thegwch portffolios gweithredol.

80 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i gryfhau ei strwythurau penderfynu. Ym mis Medi 2022, cafodd y Bwrdd Rheoli Gwasanaethau Iechyd ei ddirwyn i ben a'i ddisodli ac Uwch Fwrdd Arwain, a gyfarfu am y tro cyntaf ym mis Medi 2022. Mae'r Uwch Fwrdd Arwain yn canolbwyntio ar risgiau a materion gweithredol a strategol allweddol yn y sefydliad. Mae'n cynnwys dau grŵp:

- Grŵp Atebol, sy'n cynnwys y Tîm Gweithredol a Chyfarwyddwyr y Bwrdd Clinigol ac sy'n cwrdd ddwywaith y mis; a
- Grŵp Cefnogol, sy'n cynnwys y Grŵp Atebol a Thriwyriaethau o'r Bwrdd Clinigol ac sy'n cwrdd yn chwarterol.

81 Bydd y Tîm Gweithredol yn parhau i gwrdd ar wahân, ond mewn cymhwyster anffurfiol. Er bod y trefniadau hyn i'w gweld yn gadarnhaol, mae'n rhy gynnar i ni wneud sylwadau am eu heffeithiolrwydd.

82 Mae gan y Bwrdd Iechyd Dîm Llywodraethu Corfforaethol sy'n effeithiol ac y darperir adnoddau da ar ei gyfer. Mae rolau a chylchoedd gwaith o fewn y tîm yn glir ac mae ei aelodau'n rhagweithiol ynglŷn â gwella ac aeddfedu trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, bydd y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd yn gadael y Bwrdd Iechyd ym mis Chwefror 2023. Bydd trefniadau interim i gyflawni agweddau ar y rôl yn cael eu sefydlu tra bo'r Bwrdd Iechyd yn ceisio penodi rhywun i lenwi'r swydd yn barhaol.

# Rheoli adnoddau ariannol

83 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn darparu ein barn ynglŷn â threfniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ei adnoddau ariannol, gyda ffocws penodol ar yr hyn sydd gan y sefydliad o ran:

- ei drefniadau i gyflawni amcanion ariannol allweddol;
- ei reolaethau ariannol; a hefyd
- ei drefniadau ar gyfer adrodd ar berfformiad ariannol a'i fonitro.

84 Canfuom fod **trefniadau gweddol briodol ar waith i gefnogi cynllunio, rheolaeth a rheolaethau ariannol. Er y creffir yn dda ar faterion ariannol, rhaid dal i roi blaenoriaeth allweddol i wella'i sefyllfa ariannol yn y tymor hwy.**

## Amcanion ariannol

85 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol i gyflawni ei amcanion ariannol allweddol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd:

- wedi cyflawni ei amcanion ariannol ar gyfer 2021-22, ac a yw ar y trywydd iawn i gyflawni ei ddyletswyddau ariannol yn 2022-23; ac
- yn meddu ar gynllun ariannol eglur a chadarn, sy'n cynnwys cynlluniau arbedion a gwella costau realistig a chynaliadwy.

86 Canfuom **er bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2021-22, fod perygl na fydd yn adennill costau ar ddiwedd 2022-23 oherwydd pwysau cynyddol o ran costau.**

87 Ar ddiwedd 2021-22, cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd ariannol i weithredu o fewn ei derfyn adnoddau refeniw blynyddol ac o fewn ei derfyn adnoddau cronnol am gyfnod treigl o dair blynedd[5], gan gyflawni gwargedion bychain o £232,000 a £380,000 yn y drefn honno. Dyma'r tro cyntaf i'r Bwrdd Iechyd gyflawni'r dyletswyddau statudol hyn. Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd ariannol yn 2021-22 i adennill costau yn erbyn ei derfyn adnoddau cyfalaf treigl tair blynedd hefyd, gyda gwargedion o £41,000 a £234,000 yn y drefn honno. Fodd bynnag, gan ei fod wedi methu â chyrraedd ei darged arbedion yn 2021-22 o £4.4 miliwn, dechreuodd y Bwrdd Iechyd flwyddyn ariannol 2022-23 â diffyg sylfaenol cronnol yr adroddwyd arno o £29.7 miliwn.

88 Ym Mis 7 yn 2022-23, adroddodd y Bwrdd Iechyd ar orwariant o £15.4 miliwn yn erbyn ei gynllun ariannol craidd, yr oedd £9.9 miliwn ohono'n rhan o'i ddiffyg wedi'i gynllunio o £17.1 miliwn y cytunwyd arno. Mae'r £5.4 miliwn sy'n weddill yn orwariannau gweithredol heb eu cynllunio mewn perthynas â galw cynyddol ar wasanaethau ac adnoddau cyfyngedig yn y sector gofal cymdeithasol i roi cymorth i ryddhau cleifion yn amserol. Mae'r heriau hyn, ar y cyd â phwysau eraill o ran costau (megis cost uwch ynni, bwyd a meddyginiaeth), yn creu amgylchedd ariannol a gweithredol anodd.

89 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio ar y dybiaeth y bydd rhai costau eithriadol, megis gwariant a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 a chodiadau chwyddiannol, yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, o ystyried maint yr heriau hyn a'r sefyllfa ariannol ym Mis 7, mae risg na fydd yn cyflawni ei ddyletswyddau ariannol yn 2022-23 i adennill costau. I reoli ei heriau ariannol, mae'r Bwrdd Iechyd bellach wedi gosod mwy o ffocws ar ragolygon ariannol, camau lliniarol ac arbedion o ran costau yng nghyfarfodydd Adolygiadau Gweithredol o Berfformiad y Bwrdd Clinigol. O ystyried maint yr heriau hyn, mae'n rhy gynnar i farnu effeithiolrwydd ac affaith y trefniadau hyn.

90 Mae'r Bwrdd Iechyd yn debygol o wario o fewn ei derfyn adnoddau cyfalaf yn 2022-23. Ym Mis 7, roedd wedi gwario 34% o'i gyllideb gyfalaf o £43.8 miliwn, ond nid yw hyn yn rhoi cyfrif am archebion a oedd eisoes yn eu lle a fydd yn dangos fel gwariant mewn misoedd dilynol.

91 Mae'r broses cynllunio ariannol, sy'n rhan annatod o broses gynllunio'r Bwrdd Iechyd ar gyfer y CTCI, yn ystyried ei ddyraniad cyllid, unrhyw gyllid ychwanegol (e.e. ar gyfer gwariant a oedd yn gysylltiedig â COVID-19), pwysau o ran costau, ac effaith arbedion ar gyfer y flwyddyn gyfan. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, nid yw wedi gallu paratoi cynllun sy'n fantoledig yn ariannol ar gyfer 2022-25, sydd felly'n golygu ei fod wedi methu â chyflawni ei ddyletswydd i fod â CTCI sy'n fantoledig ac y gellir ei gymeradwyo. Mae'r broses o ddiweddaru strategaeth ddeng

[5] Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG adennill costau dros gyfnod treigl o dair blynedd.

mlynedd y Bwrdd Iechyd yn gyfle ar gyfer cynllunio ariannol tymor hir, a ddylai ystyried ei uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol (**Argymhelliad 1**).

92 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu ymagwedd bragmatig at osod targedau arbedion. Er bod y targedau'n gryn her, mae'n ymwybodol o'r angen i beidio â'u gwneud yn anghyraeddadwy. Roedd y targed arbedion ar gyfer 2022-23 yr un fath â'r llynedd yn wreiddiol, sef £16 miliwn, wedi'i rannu'n £4 miliwn mewn arbedion anghylchol a £12 miliwn mewn arbedion cylchol. Fodd bynnag, i'w helpu i leihau'r diffyg sylfaenol ymhellach, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd adolygu ac ailgyflwyno'i gynllun ariannol i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2022. Mae bellach yn cynnwys targed arbedion cylchol o £3.7 miliwn yn ychwanegol, sy'n golygu bod cyfanswm y targed arbedion ar gyfer 2022-23 bellach yn £19.4 miliwn.

93 Ym Mis 7, fe adroddodd y Bwrdd Iechyd ar gynlluniau arbedion a oedd yn gyfanswm o £17.4 miliwn yn erbyn y targed o £19.4 miliwn, gan adael bwlch o £1.9 miliwn i'w bontio ym mhum mis olaf y flwyddyn. Os nad yw'n cyflawni'r cynllun arbedion yn llawn, yn enwedig ei arbedion cylchol, mae risg y bydd unrhyw arbedion cylchol heb eu cyflawni'n ychwanegu at ddiffyg sylfaenol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2023-24, ac yn ei atal rhag cyflawni cynllun ariannol mantoledig y flwyddyn nesaf. Gan hynny, rhaid i'r Bwrdd Iechyd gynyddu ei ffocws ar gyflawni arbedion ariannol cylchol a mynd i'r afael â'r pwysau cynyddol o ran costau mor gynnar â phosibl yn y flwyddyn ariannol.

## Rheolaethau ariannol

94 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer dyrannu, awdurdodi, cofnodi a rheoli'r defnydd o'i adnoddau ariannol. Wrth archwilio hyn, fe wnaethom ystyried:

- a oes rheolaethau effeithiol ar waith i sicrhau y cydymffurfir â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Dirprwyo;
- a yw'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn cynnal goruchwyliaeth briodol ar drefniadau a pherfformiad mewn perthynas â gweithredoedd tendr sengl, taliadau arbennig, colledion ac atal twyll;
- a oes trefniadau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith; ac
- a gyflwynwyd datganiadau ariannol ar amser, ac a oeddent yn rhai heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, ac a gawsant farn archwilio lân.

95 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn gwella'i drefniadau ar gyfer rheolaeth a rheolaethau ariannol.**

96 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn dal i gael adroddiadau sicrwydd rheolaidd ar reolaethau ariannol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cymryd camau cadarnhaol i wella tryloywder cyhoeddus rhai rheolaethau ariannol, gyda'r pwyllgor yn awr yn ystyried papurau ar atal twyll a chaffael yng ngŵydd y cyhoedd fel a argymhellwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd (gweler **Arddangosyn 3, Argymhelliad 1f yn 2021**).

97 Mae'r pwyllgor yn dal i gael yr adroddiad ar golledion a thaliadau arbennig bob chwe mis. Fodd bynnag, mae'r diweddariad weithiau'n cael ei ystyried yng ngŵydd

y cyhoedd ac ar adegau eraill yn breifat. Er ein bod ni'n derbyn y gallai fod adegau pan fod angen ystyried yr adroddiad yn y sesiwn breifat, mae angen i bapurau cyhoeddus roi esboniad clir i ddynodi pam (**Argymhelliad 3f**).

98 Y llynedd, canfu'r Bwrdd Iechyd rai achosion o dorri rheolau caffael ar rai prosiectau gwariant cyfalaf a achoswyd gan arferion caffael gwael a rheolaethau mewnol gwan. Ers hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i adolygu a chryfhau ei reolaethau llywodraethu mewnol a threfniadau mewn perthynas â chynlluniau a gwariant cyfalaf trwy archwilio'r defnydd o feddalwedd i reoli prosesau cymeradwyo'n well, adolygu terfynau dirprwyedig, ac egluro rôl grwpiau sy'n gyfrifol am adolygu achosion busnes. Mae Archwiliad Mewnol o broses gaffael y Bwrdd Iechyd yn yr arfaeth.

99 Ym mis Mai 2022, fe gwblhaodd y tîm Archwilio Mewnol adolygiad o systemau ariannol craidd, yn benodol y cyfriflyfr cyffredinol a chyfrifon derbyniadwy. Cafodd hyn sicrwydd sylweddol. O ystyried lefelau blaenorol y Bwrdd Iechyd o sicrwydd uchel ar systemau ariannol craidd, mae'r tîm Archwilio Mewnol yn rhoi sylw i feysydd unigol ar sail gylchol.

100 Fe gyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei Ddatganiadau Ariannol drafft o fewn y graddfeydd amser gofynnol, ac fe gafodd y rhain eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a'r Bwrdd ym mis Mehefin 2022. Fe roddom ni farn archwilio ddiamod ar Ddatganiadau Ariannol 2021-22, ac eithrio'r farn am reoleidd-dra, y gwnaethom roi barn amodol ar ei chyfer[6].

## Trefniadau monitro ac adrodd

101 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae'r Bwrdd yn goruchwylio perfformiad ariannol y sefydliad, yn craffu arno ac yn ei herio. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a yw adroddiadau i'r Bwrdd yn rhoi darlun clir o sefyllfa ariannol y sefydliad, yn ogystal â'r heriau a risgiau ariannol allweddol a chamau lliniaru a gymerwyd; ac
- a yw aelodau'r Bwrdd yn herio asesiadau parhaus o'r sefyllfa ariannol yn ddigonol.

102 Canfuom fod **adroddiadau ariannol yn glir ac yn agored ynglŷn â heriau a risgiau ariannol ac y creffir arnynt yn rheolaidd gan y Pwyllgor Cyllid.**

103 Mae'r Pwyllgor Cyllid misol yn dal i weithredu'n effeithiol. Mae'n cael ei gadeirio'n dda ac mae'n craffu'n gadarn ar adroddiadau ariannol. Mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd trwy adroddiad cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a chofnodion y pwyllgor.

104 Mae adroddiadau cyllid misol yn glir ac yn rhoi adlewyrchiad agored a gonest o heriau ariannol y Bwrdd Iechyd. Mae'r adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eang iawn ac fe gyflwynir atodiadau manwl i gyd-fynd â hwy pe bai ar aelodau angen

[6] Eleni fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol amodi ei farn am reoleidd-dra mewn wyth allan o un ar ddeg o gyrff y GIG am bod y cyfrifon yn cynnwys gwariant a chyllid mewn perthynas â rhwymedigaethau treth pensiwn clinigwyr.

rhagor o wybodaeth. Mae'r gofrestr risgiau cyllid wedi'i hymgorffori yn yr adroddiad cyllid, gan sicrhau nad yw risgiau'n cael eu hystyried ar wahân.

105 Er bod y Pwyllgor Cyllid yn gweithio'n dda, mae cyfleoedd i adolygu ei gylch gwaith fel rhan o'r adolygiad ehangach o'r pwyllgor i gysoni ac integreiddio goruchwyliaeth ar berfformiad a risgiau ariannol a gweithredol mewn modd gwell.

# Rheoli'r gweithlu, adnoddau digidol, yr ystâd ac asedau ffisegol eraill

106 Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn darparu ein barn lefel-uchel am drefniadau'r Bwrdd Iechyd i reoli ei adnoddau ehangach, gyda ffocws penodol ar yr hyn sydd gan y sefydliad o ran:

- ei drefniadau i gefnogi lles staff (sylwer y byddwn yn cynnal adolygiad ar wahân o drefniadau'r sefydliad ar gyfer cynllunio'r gweithlu);
- ei drefniadau i reoli ei adnoddau digidol; a hefyd
- ei drefniadau i reoli ei ystâd ac asedau ffisegol eraill.

107 Canfuom **er bod goruchwyliaeth dda ar lefel y Bwrdd ar faterion mewn perthynas â'r gweithlu ac adnoddau digidol, fod cyfle i gynyddu ffocws y Bwrdd ar faterion sy'n ymwneud â'r ystâd ac asedau ffisegol cyfredol.**

## Cefnogi lles staff

108 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ac effeithiol i gefnogi lles staff. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a yw mecanweithiau i geisio barn staff am eu hanghenion o ran lles yn effeithiol, ac a oes camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd i ymateb i ganfyddiadau; ac
- a yw camau gweithredu i gefnogi a gwella lles staff yn cael ei monitro'n weithredol gan y Bwrdd, gan gynnwys camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i'n hadroddiad ar sut y gwnaeth cyrff y GIG gefnogi lles staff yn ystod pandemig COVID-19[7].

109 Canfuom **er bod goruchwyliaeth dda ar lefel y Bwrdd ar drefniadau i gefnogi lles staff, y dylai'r Bwrdd geisio mwy o sicrwydd eu bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.**

110 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i les staff ac, ym mis Ionawr 2022, fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo'r Cynllun Pobl a Diwylliant. Er bod 'gweithlu sy'n ymgysylltiol, yn gryf ei gymhelliant ac yn iach' yn un o saith thema'r cynllun, mae lles staff yn tanategu pob thema. Mae hefyd yn y broses o ddatblygu Strategaeth a Fframwaith Lles.

[7] Archwilio Cymru, Gofalu am y gofalwyr? Sut roedd cyrff y GIG yn cefnogi lles staff yn ystod pandemig COVID-19, Hydref 2021

111 Ym mis Tachwedd 2022, cafodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd adroddiad cynnydd ar gynnydd y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael ag argymhellion ein hadroddiad 'Gofalu am y Gofalwyr?'. Er bod pob un o'r chwe argymhelliad wedi'u cwblhau'n rhannol, amlygodd swyddogion ystod o weithgareddau cadarnhaol sydd wedi'u bwriadu i wella lles staff gan gynnwys:

- adnewyddu dros 30 o ystafelloedd staff;
- cyflawni rhaglenni rheoli a datblygu sy'n canolbwyntio ar arweinyddiaeth dosturiol; a
- rhaglenni lles sydd wedi'u bwriadu ar gyfer meysydd blaenoriaeth megis staff mewn unedau achosion brys.

Mae gwrando ar staff yn rhan bwysig o les hefyd ac mae gan y Bwrdd Iechyd ystod o fecanweithiau i bwyso a mesur sut y mae staff yn teimlo, gan gynnwys arolygon staff, rhwydweithiau staff, sgyrsiau am les fel rhan o arfarniad seiliedig-ar-werthoedd a chyfarfodydd 1-i-1 rheolaidd. Fodd bynnag, ychydig o sicrwydd y mae'r Bwrdd yn ei gael ynghylch effaith mentrau lles staff. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod hyn ac mae yn y broses o ddatblygu ffordd o fesur effaith gweithgareddau lles ac adrodd arnynt mewn modd effeithiol.

112 Mae'r Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni'n craffu'n rheolaidd ar faterion y gweithlu trwy ddiweddariadau ar y Cynllun Pobl a Diwylliant, metrigau allweddol mewn perthynas â'r gweithlu, a chraffu ar y risg sy'n ymwneud â'r gweithlu yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Mae'r pwyllgor hefyd yn cael adroddiadau sy'n mynd at wraidd y mater ar bynciau penodol megis arfarniad seiliedig-ar-werthoedd a'r cynllun lles staff. Fodd bynnag, oherwydd cylch gwaith eang y pwyllgor, mae'r adroddiadau hyn yn tueddu i fod yn ad-hoc o ran eu natur. O ganlyniad, cyfyngedig yw'r cyfleoedd i aelodau gynnal goruchwyliaeth barhaus ar faterion megis lles staff sydd, yn ei dro, yn arwain at sicrwydd cyfyngedig ar gyfer y Bwrdd. Mae'r adolygiad o strwythurau pwyllgorau'n creu cyfle i sefydlu Pwyllgor Pobl pwrpasol ac, unwaith y byddant wedi'u cymeradwyo, bydd y Strategaeth a Fframwaith Lles yn gallu cael eu goruchwylio'n rheolaidd ac yn fanwl drwyddo.

## Rheoli adnoddau digidol

113 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ac effeithiol i reoli ei adnoddau digidol. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a oes strategaeth ddigidol a gymeradwywyd gan y Bwrdd sy'n ceisio harneisio a manteisio ar dechnoleg ddigidol i wella ansawdd, diogelwch ac effeithlonrwydd gwasanaethau, yn ogystal â chefnogi modelau gofal newydd a ffyrdd newydd o weithio; ac
- a yw manteision sy'n deillio o fuddsoddiadau mewn technoleg ddigidol yn cael eu monitro'n weithredol gan y Bwrdd.

114 Canfuom **er bod trefniadau da ar gyfer goruchwyliaeth ar lefel y Bwrdd ar faterion digidol, fod diffyg cynlluniau manwl, cyllid a heriau staffio'n arafu gwaith y Bwrdd Iechyd i gyflawni ei flaenoriaethau digidol.**

115 Fe gymeradwyodd y Bwrdd Strategaeth Ddigidol bum mlynedd y Bwrdd Iechyd ym mis Medi 2020. Mae'n nodi sut y bydd technoleg ddigidol yn ei gwneud yn bosibl trawsnewid gwasanaethau clinigol i wireddu'r uchelgeisiau a ddisgrifir yn y strategaeth ddeng mlynedd. Cafodd y Strategaeth Ddigidol ei diweddaru'n ddiweddar i sicrhau ei bod yn dal i ddiwallu anghenion y sefydliad.

116 Ym mis Hydref 2022, fe gyhoeddodd y tîm Archwilio Mewnol adroddiad sicrwydd rhesymol ar strategaeth ddigidol y Bwrdd Iechyd. Canfu fod y strategaeth, sydd wedi bod yn cael ei diweddaru, yn briodol ac yn adlewyrchu amcanion ag agenda drawsnewid y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i ddarparu diffiniad gwell o'i Fap Trywydd Digidol y mae diffyg manylder ynddo ar hyn o bryd. Canfu'r adolygiad fod digidol yn flaenoriaeth allweddol, ond bod bwlch o ran cyllid ac adnoddau i gyflawni'r strategaeth. Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol a gyflwynir i'r Pwyllgor Deallusrwydd Iechyd a Digidol yn adlewyrchu'r risg hon yn briodol ac yn nodi camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i'w lliniaru. Mae camau gweithredu'n cynnwys cynnal dadansoddiad o fylchau staff a chynigion am fuddsoddiad a gyflwynwyd i'r Grŵp Asesu Achosion Busnes. Mae achosion busnes nas ariannwyd yn cael eu hadolygu a'u cynnwys yng ngwaith modelu ariannol hirdymor y Bwrdd Iechyd.

117 Mae'r Pwyllgor Deallusrwydd Iechyd a Digidol yn gyfrifol am oruchwylio gwaith i ddatblygu a chyflawni'r Strategaeth Ddigidol. Canfu'r tîm Archwilio Mewnol, er bod trefniadau goruchwylio'n glir ac wedi hen ennill eu plwyf, efallai nad yw'r pwyllgor yn cael sicrwydd ynghylch gweithgareddau digidol yn eu cyfanrwydd. Y rheswm dros hyn yw bod gan Fyrddau Clinigol yr annibyniaeth i fynd ar drywydd eu prosiectau digidol eu hunain, ond ychydig o gynrychiolaeth o'r Byrddau Clinigol sydd ar y pwyllgor. Mae hefyd yn aneglur a yw prosiectau digidol Byrddau Clinigol yn gyson â'r strategaeth ddigidol.

118 Canfu'r adolygiad Archwilio Mewnol hefyd nad yw grwpiau gweithredol sy'n gyfrifol am reoli'r rhaglen ddigidol a phenderfyniadau'n cwrdd yn fynych. Mae hyn eto'n awgrymu efallai nad yw'r wybodaeth gywir yn treiddio i fyny i'r pwyllgor. Fe wnaeth y tîm Archwilio Mewnol bum argymhelliad â blaenoriaeth ganolig.

## Rheoli'r ystâd ac asedau ffisegol eraill

119 Fe wnaethom ystyried i ba raddau y mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ac effeithiol i reoli ei ystâd ac asedau ffisegol eraill. Wrth archwilio hyn, rydym wedi ystyried:

- a oes strategaethau a chynlluniau a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar gyfer rheoli ystadau'r sefydliad a'i asedau ffisegol ehangach;
- a oes trefniadau priodol i'r Bwrdd adolygu prosiectau a rhaglenni cyfalaf sylweddol, craffu arnynt, eu herio a'u cymeradwyo; ac
- a oes trefniadau priodol i'r Bwrdd gynnal goruchwyliaeth briodol ar yr ystâd ac asedau ffisegol eraill.

120 Canfuom **er bod y Bwrdd Iechyd wedi cynyddu ei ffocws strategol ar gyfluniad yr ystâd yn y dyfodol, nad yw gwybodaeth am gyflwr yr ystâd bresennol yn ddigon gweledol ar lefel y Bwrdd.**

121 Ym mis Awst 2022, fe wnaethom gwblhau adolygiad dilynol i asesu'r cynnydd ers ein Hadolygiad o Ystadau yn 2017. Canfuom nad oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth ystâd, ond bod gwaith wedi dechrau i ddatblygu un, a fydd yn gysylltiedig â'r fersiwn wedi'i diweddaru o strategaeth ddeng mlynedd y Bwrdd Iechyd a'i gynllun cyfalaf. Ers ein hadolygiad yn 2017, bu newidiadau i strwythurau a phrosesau i'w gwneud yn bosibl darparu gwasanaethau ystâd yn fwy effeithiol. Fodd bynnag, canfuom fod prinder gweithlu'n lleol ac yn genedlaethol a gwahaniaethau cyflogau'n achosi risgiau arwyddocaol ac uniongyrchol i gynnal gwasanaeth diogel ac effeithiol. Yn y tymor hwy, mae hyn yn achosi risgiau posibl i allu'r Bwrdd Iechyd i gynnal ei ystâd bresennol tra'i fod yn cyflawni ei raglen amnewid ac ailddatblygu.

122 Canfuom hefyd, er bod y Bwrdd Iechyd wedi cynyddu ei ffocws strategol ar ystâd y dyfodol, nad yw gwybodaeth am gyflwr yr ystâd bresennol yn ddigon gweledol ar lefel y Bwrdd. Mae gan y Bwrdd Iechyd ystâd sy'n heneiddio, sy'n achosi risg bosibl i ddiogelwch staff a chleifion os na chaiff ei chynnal a'i chadw'n ddigonol. Roedd cost y Bwrdd Iechyd a addaswyd ar sail risgiau ar gyfer gwaith cynnal a chadw ôl-gronedig yn 2021-22 yn £114,835,323, y mae £75,204,780 ohono'n gysylltiedig ag Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae gwaith i graffu ar risgiau corfforaethol sy'n gysylltiedig ag asedau cyfalaf yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni, ond fel a nodir ym mharagraffau 67 a 112, mae cylch gwaith y pwyllgor yn rhy eang i'w alluogi i fod â goruchwyliaeth reolaidd a pharhaus. Ym mis Tachwedd 2022, o'r 16 o risgiau a aseiniwyd i'r pwyllgor, roedd wyth yn ymwneud ag asedau cyfalaf, y mae gan bob un ohonynt sgôr risg cyfredol o 20, er bod un o'r sgoriau risg wedi'i hepgor. Mae'r sgoriau cyfredol yr un fath â'r sgoriau cychwynnol, sy'n awgrymu nad yw'r camau lliniaru y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd yn effeithiol eto.

123 Dylai'r Bwrdd Iechyd geisio mynd i'r afael â hyn trwy ei adolygiad o strwythurau pwyllgorau, gan sicrhau bod goruchwyliaeth briodol ar faterion sy'n gysylltiedig â'r ystâd megis cyflwr yr ystâd gyfredol, datblygiadau yn y dyfodol a chynllunio a chyflawni'r strategaeth ystâd (**Argymhelliad 1**).

# Atodiad 1

## Ymagwedd archwilio

**Arddangosyn 4: ymagwedd archwilio**

Mae'r tabl hwn yn nodi'r ymagwedd a fabwysiadom ni ar gyfer cyflawni ein gwaith asesu strwythuredig yn y Bwrdd Iechyd.

| Elfen o'r ymagwedd archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Arsylwadau | Fe arsylwom ni ar gyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y Pwyllgorau canlynol:<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd<br>• Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad<br>• Y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni<br>• Y Pwyllgor Cyllid<br>• Y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch<br>• Y Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol<br>• Y Pwyllgor Deallusrwydd Iechyd a Digidol |
| Dogfennau | Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Cylchoedd Gorchwyl, rhaglenni gwaith, agendâu, papurau a chofnodion y Bwrdd a Phwyllgorau<br>• Dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Cynlluniau Dirprwyo, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cofrestrau o Fuddiannau, a Chofrestrau o Roddion a Lletygarwch |

| Elfen o’r ymagwedd archwilio | Disgrifiad |
| --- | --- |
| | • Strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol, gan gynnwys y CTCI<br>• Dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a’r Gofrestr Risgiau Corfforaethol<br>• Adroddiadau allweddol sy’n ymwneud â pherfformiad sefydliadol a chyllid<br>• Adroddiadau Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol<br>• Polisïau a gweithdrefnau perthnasol<br>• Adroddiadau a baratowyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Y Gwasanaeth Atal Twyll Lleol, a chyrff allanol perthnasol eraill |
| Cyfweliadau | Fe wnaethom gyfweld â’r canlynol:<br>• Cadeirydd y Bwrdd<br>• Y Prif Weithredwr<br>• Y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol<br>• Y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol<br>• Y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol<br>• Y Prif Swyddog Gweithredu Interim<br>• Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol<br>• Is-Gadeirydd y Bwrdd<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid<br>• Y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol |

| Elfen o’r ymagwedd archwilio | Disgrifiad |
| --- | --- |
| | • Y Pennaeth Risg |

# Atodiad 2

## Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio

**Arddangosyn 5: ymateb y rheolwyr**

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Cysoni prosesau, strwythurau ac adnoddau'n strategol**<br>A1 Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu diweddaru ei strategaeth ddeng mlynedd erbyn 2023. Dylai geisio defnyddio'r cyfle hwn i adolygu ac ail-lunio ei brosesau, strwythurau a threfniadau ehangach i sicrhau eu bod yn gwbl gyson ag amcanion strategol diweddaredig y sefydliad a'r risgiau cysylltiedig, gyda ffocws penodol ar:<br>• Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd<br>• Ei Fframwaith Rheoli Perfformiad<br>• Strwythurau, cylchoedd gorchwyl a chynlluniau gwaith ei bwyllgorau<br>• Ei gynllun ariannol hirdymor | Cytuno. Mae'r gwaith mewn perthynas â **Strwythur Pwyllgorau** dan reolaeth a bydd y Pwyllgorau newydd a newidiadau eraill i Strwythurau Pwyllgorau'n cael eu sefydlu ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd ar ôl cymeradwyaeth yng nghyfarfod y Bwrdd ar ddiwedd mis Mawrth 2023.<br>Ar hyn o bryd mae **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd** yn adlewyrchu'r risgiau i gyflawni Amcanion Strategol y sefydliad ac unwaith y bydd y gwaith i ddiweddaru'r Strategaeth wedi'i gwblhau bydd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn gyson â'r Amcanion Strategol.<br>**Fframwaith Rheoli Perfformiad** – Cafodd hwn ei gyflwyno i'r Pwyllgor SaCh yn 2020 ac mae angen diweddaru'r ddogfen hon yn unol â'r fersiwn wedi'i diweddaru o'r Strategaeth a'r Strwythur Pwyllgorau diwygiedig.<br>**Cynllun Ariannol Tymor Hir** – Bydd y gwaith i ddiweddaru'r strategaeth yn cael ei ategu gan ddatblygiad | Mawrth 2023<br><br>Medi 2023<br><br>Medi 2023<br><br>Medi 2023 | Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol<br><br>Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol<br><br>Y Cyfarwyddwr Deallusrwydd Iechyd Digidol<br><br>Y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | model ariannol hirdymor a fydd yn adeiladu o'r sefyllfa gyfredol o ran adnoddau ac yn dangos sut yn ariannol y bydd y bwrdd iechyd yn cyflawni'r strategaeth o fewn ei ddyraniad ariannol. Bydd hyn yn dangos y buddsoddiadau strategol a sut y byddant yn cael eu fforddio dros y ffrâm amser strategol, er enghraifft iechyd y cyhoedd, ystadau a'r strategaeth ddigidol. | | |
| **Gwella'r Adroddiad Perfformiad Integredig**<br>A2 Mae'r Adroddiad Perfformiad Integredig yn darparu trosolwg dda o berfformiad y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, mae manylion y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i gynnal neu wella perfformiad sy'n syrthio islaw'r targed yn ymddangos mewn rhai adrannau o'r adroddiad ond nid mewn adrannau eraill. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei darparu'n gyson drwy'r adroddiad i gyd i gryfhau'r sicrwydd a ddarperir ar gyfer y Bwrdd bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd i gynnal neu wella perfformiad. | Wedi'i dderbyn. Mae'r Adroddiad Perfformiad Integredig yn cael ei adolygu a bydd yn cael ei ddiweddaru i ddarparu trosolwg eglur ar berfformiad gyda'r gallu i fynd i fwy o fanylion lle y bo'n briodol. Mae'r fformat yn debygol o newid i adlewyrchu'r argymhelliad ac i ddarparu adroddiad mwy cynhwysfawr ar gyfer y Bwrdd. | Drafft i gael ei rannu erbyn 31 Mawrth 2023 | Y Cyfarwyddwr Deallusrwydd Iechyd Digidol |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Gwella trefniadau llywodraethu gweinyddol ymhellach**<br>A3 Er bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar gyfer cynnal busnes y Bwrdd a phwyllgorau'n effeithiol ac yn dryloyw, mae cyfleoedd yn bodoli i wella'r trefniadau hyn ymhellach. Felly, dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a) postio negeseuon mwy mynych yn atgoffa am gyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau ar y cyfryngau cymdeithasol a darparu dolenni i bapurau;<br>b) sicrhau bod y papurau ar gyfer holl gyfarfodydd Grwpiau Ymgynghorol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Bwrdd Iechyd mewn modd amserol;<br>c) trefnu bod fersiynau cryno o gofnodion cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau ar gael yn gyhoeddus cyn gynted â phosibl ar ôl pob cyfarfod;<br>d) sicrhau bod y dyddiadau y cafodd Cylchoedd Gorchwyl eu hadolygu | a) Fe weithiom ni gyda'n hadran Gyfathrebu y llynedd i gyhoeddi trydariadau a negeseuon atgoffa i'r cyhoedd trwy lwyfannau'r Bwrdd Iechyd ar y cyfryngau cymdeithasol. Ar hyn o bryd, mae ein tîm Cyfathrebu'n cyhoeddi postiad/trydariad misol ar ddechrau'r mis sy'n nodi manylion cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau a fydd yn cael eu cynnal y mis hwnnw. Y pryder a godwyd gan ein tîm Cyfathrebu oedd efallai na fyddai'r cyhoedd yn rhyngweithio os ydym yn cyhoeddi postiadau mynych yn ystod y mis mewn perthynas â chyfarfodydd y Bwrdd/Pwyllgorau, a phe bai hynny'n digwydd y gallai niweidio 'cyrhaeddiad cyffredinol' cyfrifon/cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd Iechyd. Byddwn yn cael sgwrs bellach gyda'n tîm Cyfathrebu i weld a yw'n ymarferol cyhoeddi negeseuon atgoffa mwy mynych trwy ein llwyfannau ar y cyfryngau cymdeithasol.<br>b) Wedi'i nodi. Bydd y tîm Llywodraethu Corfforaethol yn gweithio gyda'n cydweithwyr i sicrhau bod y papurau ar gyfer y grwpiau ymgynghorol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Bwrdd Iechyd mewn modd amserol ac i sicrhau bod y dudalen ar y wefan yn cael ei diweddaru'n gyson o ran dyddiadau cyfarfodydd y Grwpiau Ymgynghorol.<br>c) Wedi'i nodi. Byddwn yn rhoi sylw i hyn ar unwaith. | Diwedd Chwefror 2023<br>Diwedd Ionawr 2023<br>Ionawr 2023 | Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| a'u cymeradwyo ddiwethaf yn cael eu harddangos yn glir ar y dogfennau;<br>e) cylchredeg cyflwyniadau cyn cyfarfodydd neu, lle nad yw hyn yn bosibl, trefnu bod copïau ar gael i aelodau a'r cyhoedd (trwy'r wefan) cyn gynted â phosibl wedi hynny; ac<br>f) sicrhau bod papurau cyhoeddus yn cynnwys esboniad pam fod rhai materion yn cael eu trafod yn breifat yn hytrach nag yn gyhoeddus. | d) Wedi'i nodi. Byddwn yn sicrhau bod y dyddiadau pan gafodd Cylchoedd Gorchwyl Pwyllgorau eu hadolygu a'u cymeradwyo'n cael eu dangos yn glir ar ddalen flaen y ddogfen.<br>e) Hyd y gellir, rydym yn cyhoeddi copïau o gyflwyniadau cyn y cyfarfodydd. Lle na threfnwyd fod sleidiau'r cyflwyniadau ar gael cyn y cyfarfod, rydym yn ceisio cyhoeddi copïau ohonynt cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod. Byddwn yn cryfhau ein prosesau mewn perthynas â hyn i sicrhau bod y cyflwyniadau'n cael eu cyhoeddi'n briodol.<br>f) Wedi'i nodi. Yn y dyfodol, byddwn yn mewnosod geiriad priodol yn yr agenda Gyhoeddus i egluro pam bod rhai eitemau'n cael eu cyfeirio at ein Bwrdd/Pwyllgorau Preifat. | Mawrth 2023<br>Ionawr 2023<br>Ionawr 2023 | |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.